



Yr Ymateb Graddoledig



Rhan fwyaf yr amser, gellir asesu anawsterau plentyn a bodloni eu anghenion oddi mewn i adnoddau'r ysgol. Rhoddir arian i bob ysgol ar gyfer yr holl blant sy'n mynd iddi, a rhoddir arian ychwanegol i helpu'r plant hynny sy'n wynebu anawsterau.

**Canllaw byr ar yr
Ymateb Graddedig
i blant a chanddynt
Anghenion Dysgu
Ychwanegol**

Caiff plant eu hasesu pan ydynt yn dechrau yn yr ysgol – gelwir y rhain yn “ASESIADAU SYLFAENOL”. Bydd yr asesiadau hyn – a rhai’r dyfodol y bydd athrawon yn eu cynnal yn rheolaidd – yn helpu’r ysgol i wybod sawl plentyn a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn dweud y dylai ysgolion geisio adnabod anhawster plentyn yn gynnar, fel y gall y plentyn dderbyn y math cywir o gymorth cyn gynted â phosib.

Fodd bynnag, gall fod angen mwy fyth o gymorth ar nifer fach o blant. Mae gan oddeutu 20% o blant anghenion addysgol arbennig ar ryw adeg – sy’n cyfateb i 1 o bob 5 plentyn. Os ydych chi’n gofidio ynghylch eich plentyn, peidiwch â theimlo mai ef/hi yw’r unig un sy’n wynebu anawsterau. Gofynnwch am gael siarad ag athro/awes neu Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol eich plentyn.



Mae’r Cod Ymarfer yn rhoi canllaw strwythuredig i ysgolion am ddiwallu anghenion plentyn os yw ef/hi yn wynebu anhawster wrth ddysgu am ba bynnag rheswm. Mae’n dweud mai pryder ynghylch cynnydd y plentyn fydd y sbardun ar gyfer darparu’r cymorth. Athrawon yn aml yw’r bobl sy’n penderfynu bod angen cymorth ar blentyn, ond mae’r Cod Ymarfer yn dweud y gall unrhyw un sy’n adnabod y plentyn ac sy’n gofidio ofyn am gymorth – mae hyn yn cynnwys rhieni/gofalwyr.

Bydd yr ysgol yn gyfrifol am y cymorth cychwynnol y mae eich plentyn yn ei dderbyn, a darperir hyn drwy ‘ymateb graddedig’.

Gweithredu gan yr Ysgol

Gelwir y cymorth y gellir ei roi i’ch plentyn yn y cyfnod cynnar hwn yn Weithredu gan yr Ysgol. Gallai fod angen y cymorth ychwanegol hwn ar lawer o blant. Gallai’r rhesymau gynnwys y canlynol:-

- Mae eich plentyn yn gwneud ychydig iawn o gynnydd, hyd yn oed pan fo’r ysgol yn helpu’r plentyn gyda’i wendid penodol
- Mae eich plentyn yn cael anhawster wrth ddysgu darllen, neu gyda mathemateg – neu bwnc arall
- Mae gan eich plentyn anawsterau emosiynol neu ymddygiadol nad ydynt yn gwella er gwaethaf yr oll y mae’r ysgol yn ei wneud eisoes i geisio helpu
- Mae gan eich plentyn anhawster corfforol, anawsterau o ran y clyw neu’r golwg, neu mae angen cyfarpar arbennig arno/i
- Mae gan eich plentyn anawsterau cyfathrebu, neu’n ei chael hi’n anodd gwneud ffrindiau a chymysgu â’r plant eraill

Bydd athro/awes eich plentyn, mewn cydweithrediad â'r Cydlynnydd AAA/ADY yn penderfynu beth yw ei anhawster a sut mae helpu. Bydd ef/hi yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr ac yn ysgrifennu Cynllun Addysg Unigol sy'n disgrifio'r gefnogaeth sydd ei hangen, yn gosod targedau i'w cyflawni, ac yn amlinellu sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i adolygu. Os nad yw eich plentyn yn gwneud cynnydd priodol o hyd, yna gallent benderfynu ei symud i'r cam nesaf.

Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy

Bydd yr athro/awes a'r Cydlynnydd AAA wedi cydweithio er lles y plentyn, ond os na fu digon o gynnydd yna gallent benderfynu ceisio rhagor o gymorth gan rywun y tu allan i'r ysgol. Gallai'r person hwn fod yn Seicolegydd, neu'n Therapydd Iaith a Lleferydd athro/awes ymgynghorol.

Gallai'r person hwn awgrymu strategaethau penodol i'w defnyddio gyda'ch plentyn neu fe allai helpu'r staff i gynllunio'r rhaglenni ar gyfer eich plentyn. Mae plentyn fel arfer yn symud ymlaen i'r cyfnod hwn am un o'r rhesymau canlynol:-

- Mae'n parhau i wneud ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl, mewn meysydd penodol dros gyfnod hir o amser
- Nid yw'n llwyddo i weithio ar yr un lefel yn y Cwricwlwm Cenedlaethol â phlant eraill o'r un oedran
- Nid yw'n datblygu sgiliau darllen a gwaith rhif o hyd

- Mae'n parhau i wynebu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol nad ydynt yn dod yn haws, er gwaethaf y cymorth a gynigir
- Mae ganddo/i anghenion corfforol neu synhwyrdd (megis golwg neu glyw), sy'n golygu bod angen cyngor arbenigol ar yr ysgol
- Mae ganddo/i anawsterau cyfathrebu neu gymdeithasol parhaus, ac nid yw'n gallu cymysgu â phlant eraill yn y dosbarth o hyd

Os yw eich plentyn yn parhau i brofi anawsterau sylweddol, er gwaethaf derbyn cefnogaeth yn yr ysgol a chan asiantaethau allanol neu os yw'r athrawon a'r Cydlynnydd AAA yn teimlo nad ydynt wir yn deall beth yw anawsterau eich plentyn, yna gallai'r ysgol neu'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn awgrymu bod asesiad llawn yn briodol.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol (ALL) yw cynnal yr asesiad hwn. Gelwir hyn yn Asesiad Statudol.

Byddwch yn gwybod os yw'r ysgol am wneud cais ar gyfer asesiad statudol, oherwydd byddant yn siarad â chi yn gyntaf am hyn. Gellir gofyn i chi lofnodi ffurflen fel y gall eich plentyn gael yr asesiad hwn.

Gall y rhieni hefyd ofyn bod yr ALL yn cynnal asesiad statudol os ydynt yn teimlo nad yw eu plentyn yn gwneud cynnydd yn yr ysgol.

Os ydych yn penderfynu gwneud cais am asesiad statudol, byddai bob amser yn well trafod hyn yn gyntaf gydag athro/awes eich plentyn.

Pan ofynnir i'r Awdurdod Lleol asesu plentyn, byddent yn cymeryd ychydig o amser (10 wythnos) cyn penderfynu a yw asesiad llawn yn angenrheidiol. Yna, byddant yn rhoi gwybod i'r ysgol a'r rhiant beth yw eu penderfyniad.

Bydd yr ALL yn gwneud penderfyniad ynghylch gwneud asesiad llawn neu beidio ar ôl edrych ar wybodaeth gychwynnol a roddir iddynt am eich plentyn. Bydd y wybodaeth y bydd yr ALL yn edrych arni'n dod oddi wrth yr ysgol, oddi wrthoch chi fel rhieni, ac oddi wrth bobl broffesiynol eraill sy'n adnabod eich plentyn. Bydd yr ALL am wybod sut mae'r ysgol wedi helpu eich plentyn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am y canlynol:-

- Beth rydych yn ei feddwl am y gefnogaeth a fu ar gael i'ch plentyn yn ystod cyfnodau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- Beth mae eich plentyn yn ei feddwl ynghylch ei gynnydd yn yr ysgol
- Copïau o'r Cynllun Addysg Unigol
- Cofnodion o gynnydd neu ddiffyg cynnydd eich plentyn
- Copi o unrhyw adroddiadau neu raglenni a roddwyd gan bobl broffesiynol eraill i'ch plentyn
- Tystiolaeth ynghylch sut mae pobl y tu allan i'r ysgol wedi helpu eich plentyn

Byddwch yn gwybod pan fo'r asesiad wedi cychwyn gan y bydd yr ALL yn anfon llythyr atoch yn dweud y bydd yn edrych ar anghenion eich plentyn, a gallent hefyd anfon llythyr atoch yn esbonio sut y byddant yn cynnal yr asesiad. Dylent hefyd rhoi manylion i chi ynghylch eich gwasanaeth partneriaeth rhieni lleol.

Bydd modd iddynt gynnig cyngor a chefnogaeth annibynnol. Byddant yn deall beth rydych yn mynd trwyddo, a gallant eich helpu i deimlo'n rhan o'r asesiad. Y mae bob amser yn bwysig eich bod yn esbonio wrth yr ALL beth rydych chi'n credu yw anghenion eich plentyn, a sut rydych yn teimlo y gellir bodloni ei (h)anghenion.

Mae gan yr ALL Adran Anghenion Arbennig gyda phobl sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr asesiad yn digwydd yn y modd priodol. Maent hefyd ar gael i siarad â rhieni dros y ffôn os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Gallech hefyd weld y geiriau canlynol sy'n disodli'r term Anghenion Addysgol Arbennig

- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Anghenion Addysgol Ychwanegol
- Anghenion Ychwanegol

Amdano SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaethau a Rhieni yng Nghymru ac mae'n cynnig gwybodaeth gywir, cyngor di-duedd a chefnogaeth i deuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt neu a allai fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig a/neu nabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP Cymru hefyd yn cynnig gwasanaeth datrys anghydfodau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol fater wrth fater i blant a phobl ifanc.

Llinell Gymorth: 0845 120 3730 E-bost: llinellgymorth@snapcymru.org

www.snapcymru.org